Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Gwener, 7 Chwefror 2020

Prifysgol Abertawe

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg):	Dr Hefin Jones (Cadeirydd), Yr Athro Siwan Davies, Dr Awen Iorwerth, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Dr Dylan Foster Evans, Dr Euryn Roberts, Llŷr Roberts, Bethan Wyn Davies (ar ran yr Athro Mererid Hopwood)
Aelodau (Sefydliad):	Dr Gwenno Ffrancon, Elen Mai Nefydd, Dr Paula Roberts, Daniel Tiplady, Judith Davies, Dr Jonathan Morris
Aelodau (Myfyrwyr):	Megan Colbourne, Emyr Owen, Elis Allsopp, Ceris Mair Griffiths, Lois Jones (ar ran Llio Alun, De Cymru)
Aelodau (Addysg Bellach):	-
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Mari Fflur, Rhian Jones, Gwenllian Owen (Rheolwyr Academaidd), Adam Jones, Tanya Morgans
Ymddiheuriadau:	Nia Brown, Rebecca Bowen, Delyth Murphy, Dr Haydn Edwards, Yr Athro Eleri Pryse, Dr Prysor Williams, Yr Athro Mererid Hopwood, Dr Catrin Haf Williams, Dr Cerys Jones, Yr Athro Gwynedd Parry, Carys Swain, Bryn Hughes Parry, Yr Athro Jerry Hunter, Meri Huws, Sara Elen Patterson, Lleucu Myrddin, Tomos Ifan

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a sylwadau agoriadol	1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod a diolchwyd i Brifysgol Abertawe am gynorthwyo gyda'r trefniadau. 1.2 Estynnwyd croeso i gynrychiolwyr myfyrwyr o brifysgolion Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Glyndŵr, Abertawe a De Cymru.		
2. Ymddiheuriadau a datganiadau diddordeb	2.1 Nodwyd yr ymddiheuriadau uchod. 2.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.		
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2019	3.1 Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir a chyflawn.		
4. Diweddariad gan y Prif Weithredwr	4.1 **Cynllun Strategol y Coleg:** nodwyd y bu'r lansiad yn llwyddiannus ac y cafodd sylw adeiladol. Ategwyd bod Addysg Uwch yn parhau yn ganolog i waith y Coleg a chynhelir cyfarfodydd unigol gyda phrifysgolion yn y misoedd nesaf i drafod sut y caiff Strategaeth y Coleg ei gweithredu yn y pum mlynedd nesaf. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Llywodraeth am gyllidebau a threfnir cyfarfod arall gyda'r Gweinidog Addysg yn fuan. Croesawyd yr ymrwymiad gan y pleidiau gwleidyddol. Mae cynlluniau'r CCC yn dibynnu ar gefnogaeth a chyllid hir-dymor. Nodwyd bod animeiddiad ar gael sy'n cyflwyno'r Cynllun Strategol. 4.2 **Bwrdd Ôl-16** Nodwyd bod y bwrdd Ôl-16 wedi cyfarfod unwaith o dan gadeiryddiaeth Meri Huws. Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth. Nodwyd bod: ▪ bron i 50 o lysgenhadon wedi eu recriwtio ▪ y Grantiau Datblygu yn gwneud gwahaniaeth ▪ y gwaith mapio darpariaeth yn parhau ▪ heriau o ran llwybrau dysgu a chymwysterau		

	▪ adnoddau newydd ym maes Iechyd a Gofal ac adnodd Prentis-iaith wedi eu lansio. 4.3 **Addysg Gychwynnol Athrawon:** nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen am dargedau ond bod gwaith i'w wneud eto. Y targed a nodwyd yw bod 30% o'r hyfforddeion sydd yn cymhwyso yn gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. 4.4 **Y Gymraeg fel Pwnc:** cyfeiriwyd at gynlluniau penodol fel y Gymraeg ar Daith a'r Cynllun Mentora. Nodwyd bod hwn yn faes hollbwysig a bydd angen cyllid i gefnogi'r agenda. 4.5 Yn ystod trafodaeth ar nifer o agweddau amrywiol, codwyd y cwricwlwm newydd mewn ysgolion a'r pryderon o ran adnoddau a chynllunio'r gweithlu. Nodwyd bydd Cynlluniau Addysg Sirol (WESPs) newydd yn cael eu datblygu. Mae MFf a DT wedi eistedd ar bwyllgor y Llywodraeth i drafod adnoddau. Cadarnhawyd bod y Llywodraeth am gynhyrchu adnoddau dwyieithog. 4.6 Mae cyllideb y Coleg wedi ei sicrhau tan ddiwedd cyfnod y Llywodraeth presennol. Mae'r sefyllfa yn fwy sefydlog na chyn yr etholiad diwethaf. Nodwyd bod CCAUC yn gydweithredol ac yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg.		
5. Canllawiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer asesu gwaith a gyflwynir yn y Gymraeg	5.1 Nodwyd bod angen i bob prifysgol ddilyn y canllawiau a gweithredu'r canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA). 5.2 Trafodwyd y paratoadau ar gyfer ymweliad y ASA. Nodwyd y dylid codi materion os nad yw'r canllawiau'n cael eu dilyn. 5.3 Hawl i asesu yn y Gymraeg a gwybodaeth am gyfleoedd i astudio: nodwyd bod trafodaeth wedi digwydd gyda CCAUC. Lluniwyd		

	cylchlythyr yn atgyfnerthu cyngor a chyfarwyddyd i'r prifysgolion gan godi cwestiynau ychwanegol. Disgwylir i gylchlythyr gael ei gyhoeddi gan CCAUC yn y dyfodol agos yn darparu arweiniad, gan gynnwys gwybodaeth a diffiniad o fodiwl Cymraeg er eglurdeb. 5.4 Nodwyd bod CCAUC yn awyddus i ymgynghori gyda swyddogion data er mwyn profi'r canllaw. Bydd DT yn cynnal gweithdy er mwyn esbonio'r cyd destun. 5.5 Nodwyd byddai hwn yn fater i'w gynnwys ar agenda Cyfarfodydd Cangen. Diolchwyd i'r myfyrwyr am godi Cylchlythyr CCAUC yn y cyfarfod diwethaf a bod datblygiadau yn sgil hynny. 5.6 Ategwyd bod yr angen am godi ymwybyddiaeth yn broses gyson oherwydd newid staff. Nodwyd bod hyn yn bosib trwy gylchlythyr CCAUC a data *Futures* a gesglir tair gwaith. Nodwyd bod y Coleg yn ystyried effaith hyn. Amlygwyd bod gan brifysgolion brosesau eu hunain hefyd. 5.7 Trafodwyd sut allai profiadau o weithio gyda'r sector Ôl-16 fod yn ddefnyddiol ym maes Addysg Uwch. Nodwyd bod y strwythur casglu data yn wahanol yn y sectorau a bod iaith y dysgu a chyflwyniad yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog a goblygiadau cyllido gwahanol. Nodwyd, trwy ddysgu arloesol, ffrâm y pyramid a phynciau galwedigaethol yn benodol, bod cyfleoedd i ddechrau meddwl am gyfleoedd i fod yn fwy arloesol ac y bydd angen trafodaeth bellach ar hyn.	DT	
6. Materion y myfyrwyr: papur trafod – diweddariad ar brosiectau CCAUC	6.1 Paratowyd ymateb i bapur y myfyrwyr a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf a rhannwyd y weithdrefn ar gyfer codi materion o gonsyrn gyda'r gynrychiolaeth o fyfyrwyr ac aelodau'r Grŵp Ymgynghorol. Croesawyd yr ymateb a mireiniwyd y cynnwys yn dilyn trafodaeth gan roi pwyslais ar ddilyn proses mewnol yn y lle cyntaf. Nodwyd	Rhannu'r weithdrefn gydag Aelodau'r Bwrdd a	Mawrth 2020

ym maes Iechyd a Lles Meddwl myfyrwyr Cymraeg	bod gweithdrefnau wedi eu rhoi yn eu lle i'w rannu ymhellach gydag aelodau'r Bwrdd a Swyddogion Cangen. 6.2 Roedd y myfyrwyr yn teimlo bod hyn wedi ymateb i'r hyn a godwyd yn y cyfarfod diwethaf. Diolchwyd i'r myfyrwyr am godi'r mater. 6.3 Cyflwynwyd y Papur ar Iechyd a Lles. Mae gan Brifysgol Abertawe gynllun *Connect* caiff ei gefnogi gan y staff a'r myfyrwyr. Caiff y staff eu hyfforddi trwy gwrs sabothol iechyd meddwl a chymorth cyntaf. Croesawyd y cymorth sydd ar gael yn Gymraeg. Nodwyd bod Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant hefyd wedi rhedeg dau gwrs iechyd meddwl, wedi paratoi gwefan a chasglu adnoddau gan edrych ymlaen i gael adborth gan fyfyrwyr. 6.4 Nodwyd bod y Coleg yn llawn gefnogol ac yn ystyried hyn yn amserol a phwysig er lles pawb. 6.5 Nodwyd yr angen am fwy o wybodaeth ynglŷn â staff cwnsela Cymraeg yn y prifysgolion. Nodwyd bod gwybodaeth wedi ei chasglu gan Fangor. Ategwyd mai mater i'r prifysgolion yw hyn ac os oes consyrn yn codi, i'r Comisiynydd Iaith.	Swyddogion Cangen Ailymweld â hyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.	Mai 2020
7. Cyflwyniad gan Dr Dylan Phillips: Cynllun Strategol y Coleg, 2020/21 hyd 2024/25	7.1 Nodwyd bod y Coleg yn awyddus i dderbyn adborth a sylwadau. Amlinellwyd materion i'w hystyried o ran: ▪ cynnal yr ystod eang o bynciau ▪ cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio ▪ rhoi lle canolog i fyfyrwyr yn y broses gynllunio ▪ comisiynu adnoddau ▪ grantiau pynciol – gwerthusiad gwyddonol o'r effaith ▪ gwella llwyfannau e.e y Porth, catalog adnoddau ▪ dysgu cyfunol ▪ y Dystysgrif Sgiliau Iaith (TSI)	Rhannu copi o'r cyflwyniad gydag aelodau'r Bwrdd	Mawrth 2020

	▪ lefel cyllido Addysg Uwch ac adnabod blaenoriaethau yn unol â'r cyllid sydd ar gael 7.2 Nodwyd y canlynol mewn ymateb i'r cyflwyniad: ▪ Consyrn ynghylch defnyddio Grantiau Pynciol ar gyfer darlithwyr fesul awr; ▪ Yr angen i gefnogi myfyrwyr sy'n ddi-hyder yn y Gymraeg a bod y model AB yn bwysig o ran hynny. Ategwyd bod 'hyder' yn fater dyrys a bod angen gofal wrth ymdrin â hyn; Cyfeiriwyd at Wlad y Basg ac mai diwylliant, awyrgylch ac adnoddau yw'r prif ffactorau wrth ddewis iaith, nid hyder; ▪ Dylid ystyried ail-ddiffinio beth yw'r ddarpariaeth, nid ail-ddiffinio unigolion/ grwpiau a chreu darpariaeth sy'n cael ei diffinio o ran y Gymraeg; ▪ Ategwyd bod angen i'r rhai sy'n dod i Gymru gael profiad ychwanegol a gwahanol ond bod cyfrifoldeb tuag at y rhai sydd wedi cael addysg yng Nghymru a'r pwysigrwydd i gynnal y grwpiau yma ar y continwwm; ▪ Modiwlau hyd at 40 credyd - holwyd ynglŷn â'r posibilrwydd o gael mwy o hyblygrwydd a rhoi pwyslais ar sicrhau dilyniant a pharhad a dod yn fwy llythrennog o ran y Gymraeg; ▪ Y gallu i wneud/newid penderfyniadau yn y tymor byr gan fod 5 mlynedd yn amser hir a bod pethau yn gallu newid. 7.3 Awgrymwyd y dylid trefnu diwrnod o ymgynghori mewn grwpiau bach o fewn y Bwrdd Academaidd – naill ai fel rhan o gyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd neu drefnu diwrnod ar wahân. Yn y cyfamser dylid gofyn i'r Canghennau drafod.		
8. Adroddiad blynyddol ar y Strategaeth Ehangu Mynediad	8.1 Nodwyd y bu cynnydd sylweddol o ran y Gymraeg yn y maes hwn, ac mae perthynas adeiladol gyda CCAUC. Nodwyd nad oes llawer o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cwympo i'r categori amddifadedd yn ôl y mesur WIMD 40 ond bod y Coleg wedi datblygu rhestr		

	ysgolion targed ysgolion Cymraeg a dwyieithog sydd yn caniatáu cydweithio â mwy o ysgolion na'r hyn a bennir gan CCAUC.		
9. Cyflwyniad gan DT a GO: Ysgoloriaethau 2019/20	9.1 Nodwyd bod bron dwy ran o dair o'r ysgoloriaethau ym maes y Gymraeg fel pwnc ac yn ail, Addysg. Ategwyd bod y patrymau yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Holwyd beth gellid ei wneud i wneud y defnydd gorau o'r ysgoloriaethau. 9.2 Nodwyd bod pob myfyriwr cymwys wedi derbyn ysgoloriaethau cymhelliant. Mae gan pob prifysgol ffrâm ddyfarnu sydd wedi ei chymeradwyo. 9.3 Holwyd a ydy'r cyfraddau llwyddo yn mynd at y pynciau a amlygid? Nodwyd bod hyn yn wir yn gyffredinol. Holwyd pam fod angen ystod mwy cyfartal. Nodwyd y tybir bod y nifer o geisiadau am brif ysgoloriaethau yn dangos y nifer sy'n astudio'r pwnc. Nodwyd y croesawir ceisiadau uwch gan fod hyn yn arwydd bod mwy am astudio'r maes hwnnw. Nodwyd yr awydd i weld mwy o bynciau yn cael eu hastudio yn y Gymraeg. 9.4 Tynnwyd sylw at data UCAS sydd yn dangos newid o ran demograffeg. Nodwyd, er bod canran o'r rhai sy'n cael eu derbyn i'r brifysgol yn uchel, mae'r niferoedd yn llai o ran y boblogaeth 18 oed. 9.5 Holwyd a oes data ar gael i gymharu ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg? Nodwyd bod DT wedi edrych arno yn y gorffennol a bydd yn bosib i gael y data hynny tua Ebrill/ Mai. 9.6 Holwyd a oes dosbarthiad penodol ynglŷn â phynciau. Nodwyd nad oes llawer o brifysgolion yn y canolbarth a bod dinasoedd yn denu.	DT	Ebrill/Mai 2020

	Nodwyd y ceir amrywiaeth fesul pwnc o ran astudio dros y ffin ac y gellir cael data o ran hyn o bosib. 9.7 Nodwyd y gystadleuaeth o du prifysgolion yn Lloegr sy'n agos i'r ffin. Maent yn buddsoddi cryn dipyn yn eu hymgyrchoedd recriwtio. 9.8 Nodwyd y gwerth o edrych mewn i fyfyrwyr Cymraeg yn unigol yn hytrach nag ysgolion. Awgrymodd GO y gellid defnyddio myfyrwyr dros y ffin i roi gwell syniad i ni a nodwyd yr angen i drafod gyda'r paneli pwnc. 9.9 Holwyd a oes modd cael mwy o hyblygrwydd o ran ysgoloriaethau o ran mwy o gredydau mewn un flwyddyn. Nodwyd y byddai hyn yn golygu gormod o fonitro ac y gellid ystyried meysydd penodol o bosib. Nodwyd yr angen i feysydd gynnal y trothwy ar draws.		
10. Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi	10.1 **Cofnodion cyfarfod 21 Tachwedd 2019:** cyflwynwyd er gwybodaeth. Nodwyd bod cyfarfod ar gyfer y Pencampwyr Ymchwil wedi'i gynnal ar 6 Chwefror. 10.2 **Cylch Gorchwyl:** derbyniwyd y cynnig i wneud Cadeirydd Bwrdd Golygyddol Gwerddon (sef yr Athro Eleri Pryse) yn aelod *ex officio* o'r Pwyllgor. 10.3 **Aelodaeth:** yn sgil y ffaith fod hynny'n creu sedd wag, cynigiwyd a derbyniwyd enw Dr Huw Williams, Deon y Gymraeg Prifysgol Caerdydd, fel aelod. 10.4 Nodwyd nad yw'r Pwyllgor yn cynnwys aelod o blith staff y Ganolfan Uwch Efrydiau Cymreig a Cheltaidd. Nodwyd y bydd hyn yn cael ei ystyried y tro nesaf bydd angen penodi aelodau newydd. Nodwyd hefyd bod dau gynrychiolydd o'r un brifysgol a'r un pwnc ymhlith	MFf i gysylltu	Mawrth 2020

	aelodau'r Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi, ac y dylid osgoi sefyllfa o'r fath lle bo modd.		
11. Trefniadau'r Cynulliad Blynyddol a'r Llys a threfniadau Cynhadledd y Darlithwyr Cysylltiol	11.1 Nodwyd bydd Ieuan Wyn, Dr Iolo ap Gwynn a Denise Williams yn cael eu hurddo'n Gymrodyr yn y Cynulliad Blynyddol ar 24 Mawrth yng Nghanolfan y Mileniwm. 11.2 Nodwyd bod tymor Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg, Dr Haydn Edwards, yn dod i ben ar 31 Mawrth. 11.3 Cadarnhawyd trefniadau cynhadledd y Darlithwyr Cysylltiol ar 25 Mehefin ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd (Campws Llandaf) a'r gwobrau ar 24 Mehefin yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Gwahoddir enwebiadau ar draws tri chategori gan atgoffa y dylid mynd trwy ganghennau a darlithwyr cysylltiol.	Cyflwyno enwebiadau gwobrau Darlithwyr Cysylltiol	28 Chwefror 2020
12. Materion y Canghennau	12.1 Nid oedd materion i'w trafod.		
13. Materion yn codi o'r cofnodion	***3.1*** Cadarnhawyd bod y cywiriad wedi ei wneud. ***7.1*** Papur myfyrwyr: nodwyd bod pob pwynt gweithredu wedi ei gwblhau. ***7.2*** Cadarnhawyd bod y broses adolygu cynlluniau pynciol ar waith ar hyn o bryd. ***8.5*** Dadansoddiad data (GO a DT) yn parhau fel pwynt gweithredu. ***10.1*** Mae Cynllun Pwnc y Gymraeg wedi ei gwblhau a'i gymeradwyo ***11.5*** Darlithwyr Cysylltiol – nodwyd bod y Coleg wedi trafod yn fewnol i ymestyn i'r sector Ôl-16 a darlithwyr y tu hwnt i Gymru ond bod angen amser i'w wneud yn iawn. Rhennir y datblygiadau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ***12.6*** Bwrdd Golygyddol Gwerddon: derbyniwyd nifer o enwebiadau ond penderfynwyd oedi er mwyn edrych ar y Cylch Gorchwyl. Nodwyd bod hyn yn nwylo'r Golygydd.		

	15.1 Myfyrwyr tu hwnt i'r ffin: nodwyd bod GO wedi dechrau trwy gysylltu gyda rhai prifysgolion a chymdeithasau myfyrwyr ac wedi derbyn ymateb cadarnhaol. ***15.2*** Llythyr Cangen Aberystwyth: nodwyd na ddaeth y llythyr i law a bod y mater wedi ei ollwng.	GO i greu cylchlythyr a threfnu digwyddiadau hyrwyddo	Tymor yr haf 2020
14. Unrhyw fater arall	14.1 Derbyniwyd Newyddlen AB er gwybodaeth. 14.2 Nodwyd y trefnir digwyddiad i ddathlu myfyrwyr Iechyd Caerdydd gyda chyflwyniadau a siaradwyr gwadd. Croesawyd hyn gan HJ, a nododd y dylid ymfalchïo yn y llwyddiannau. 14.3 Nodwyd bod 22 o geisiadau am Ysgoloriaethau Ymchwil. 14.4 Nodwyd bod HJ wedi ailgydio yn Nhaith y Deon ac y bydd yn ymweld â nifer o sefydliadau dros y tair wythnos nesaf.		
15. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf	15.1 Cynhelir cyfarfod Tymor yr Haf ar 20 Mai 2020 ym Mhrifysgol Bangor.		